Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Deall Tybaco a Nicotin: Beth yw'r sylweddau hyn a sut maen nhw'n gweithio



Iechyd Cyhoeddus Cymru

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Yn y casgliad o sleidiau hwn, byddwn yn archwilio:

**Tarddiad Tybaco**

- O ble mae tybaco yn dod a sut mae'n cael ei brosesu

**Y Gwahaniaethau Rhwng Tybaco, Nicotin a Sylweddau Eraill**

- Cyflwyniad i'r cynhyrchion tybaco a nicotin gwahanol

**Cynhyrchion Tybaco a Nicotin Cyffredin**

**Sut mae Nicotin yn Effeithio ar y Corff a'r Ymennydd**

- Sut mae nicotin yn mynd i mewn i'r llif gwaed a'i effaith ar yr ymennydd
- Effeithiau hirdymor a thymor byr nicotin

**Caethiwed a Sut Mae Dibyniaeth yn Datblygu**

- Y ddibyniaeth ffisiolegol a chorfforol
- Symptomau diddyfnu
- Cylch caethiwed

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Tarddiad Tybaco a Nicotin

Daw tybaco o'r teulu planhigion Nicotiana, yn bennaf Nicotiana tabacum a Nicotiana rustica.

Mae'n frodorol i'r Americas ac mae wedi cael ei ddefnyddio ers canrifoedd mewn cyd-destunau diwylliannol, meddyginiaethol a seremonïol.

Yn dilyn gwladychu Ewropeaidd yn yr 16eg ganrif, lledaenodd yn fyd-eang, yn y dechrau fel tybaco pibell neu gnoi ac yn ddiweddarach fe'i defnyddiwyd mewn sigaréts a sigârs.
Mae nicotin yn gemegyn alcaloid naturiol a geir yn bennaf mewn dail tybaco. Mae'n gweithredu'n bryfleiddiad naturiol ar gyfer y planhigyn. Gellir cynhyrchu nicotin yn synthetig hefyd.

Pan gaiff tybaco ei brosesu neu ei ysmygu, caiff nicotin ei ryddhau a'i amsugno i'r llif gwaed.





Ffynhonnell: Nicotine Chemistry, Metabolism, Kinetics and Biomarkers - PMC

# Y Gwahaniaethau Rhwng Tybaco, Nicotin a Sylweddau Eraill

| Sylwedd | Beth yw hwn | Nodweddion Allweddol |
|---|---|---|
| Tybaco | Cynnyrch planhigion sy'n cynnwys nicotin a chemegau eraill . | Caiff ei ddefnyddio ar ffurfiau ysmygu, cnoi a snisin. Pan gaiff ei losgi, mae'n rhyddhau miloedd o gyfansoddion; llawer ohonynt yn wenwynig neu'n garsinogenig. |
| Nicotin | Cyffur symbylydd a geir mewn tybaco. | Y brif elfen gaethiwus; yn effeithio ar system wobrwyo'r ymennydd. Nid yw'n garsinogen ar ei ben ei hun ond mae'n atgyfnerthu'r defnydd o gynhyrchion tybaco. |
| Sylweddau eraill | e.e., caffein, alcohol neu THC. THC (tetrahydrocanabinol) yw'r prif gyfansoddyn seicoweithredol yn y planhigyn canabis. | Gallant newid swyddogaeth yr ymennydd ond maent yn wahanol o ran eu mecanweithiau, risgiau iechyd a phroffiliau caethiwed. Mae nicotin yn gweithredu'n gyflymach ac mae ganddo gylch dibyniaeth penodol. |

# Cynhyrchion Tybaco a Nicotin Cyffredin

| Categori | Disgrifiad | Modd o Gyflenwi Nicotin |
|---|---|---|
| Sigaréts | Tybaco sych, wedi'i rwygo wedi'i rolio mewn papur; wedi'i losgi a'i anadlu i mewn. | Caiff ei amsugno'n gyflym trwy'r ysgyfaint. |
| Sigarau a sigarilos | Tybaco sych wedi'i rolio mewn dail tybaco; fel arfer ni chaiff ei anadlu'n ddwfn. | Caiff ei amsugno trwy leinin y geg a'r ysgyfaint. |
| Tybaco di-fwg | Yn cynnwys: tybaco cnoi - wedi'i osod rhwng y gwm a'r gwefus; a snisin - naill ai'n sych ac wedi'i sniffian neu'n llaith ac wedi'i osod rhwng y gwm a'r wefus. | Caiff ei amsugno trwy'r geg neu leinin y trwyn. |
| Snŵs | Tybaco powdr llaith wedi'i osod rhwng y gwm a'r wefus; poblogaidd yn Sgandinafia. | Amsugno nicotin yn gyson, yn arafach. |
| Bagiau bach o nicotin (heb dybaco) | Bagiau bach sy'n cynnwys nicotin synthetig neu nicotin sy'n deillio o blanhigion heb ddail tybaco; wedi'u gosod rhwng y gwm a'r wefus. | Caiff ei amsugno trwy leinin y geg. |

# Perthynas Nicotin â'r Corff a'r Ymennydd

Amsugno: Mae nicotin yn mynd i mewn i'r llif gwaed trwy'r ysgyfaint (ysmygu), y geg neu bilenni trwynol (cnoi/sniffian).



**Yr Effaith ar yr Ymennydd:**

- Yn cyrraedd yr ymennydd o fewn 10–20 eiliad.
- Yn ysgogi rhyddhau dopamin, y niwrodrosglwyddydd "pleser".
- Hefyd yn cynyddu norepineffrin ac asetylcolin (y ddau yn niwrodrosglwyddyddion) gan arwain at lefelau uwch o fywiogrwydd a chanolbwyntio.

**Effeithiau tymor byr:**

- Cyfradd curiad y galon a phwysedd gwaed uchel.
- Teimladau dros dro o ganolbwyntio, ymlacio neu lai o straen.

**Effeithiau hirdymor:**

- Mae dod i gysylltiad cronig â nicotin yn newid llwybrau niwral gan arwain at ddibyniaeth.
- Mae diddyfnu'n achosi tymer flin, chwantau ac anhawster canolbwyntio.

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales


# Caethiwed a Sut Mae Dibyniaeth yn Datblygu

**Dibyniaeth Seicolegol:** Mae rhyddhau dopamin nicotin yn creu atgyfnerthiad cadarnhaol — mae defnyddwyr yn hiraethu am y teimlad "gwobr".

**Dibyniaeth Gorfforol:** Mae'r corff yn addasu i nicotin, gan fod angen mwy i gyflawni'r un effaith.

**Symptomau Diddyfnu:** Yn cynnwys tymer flin, gorbryder, aflonyddwch a chwantau dwys pan fydd lefelau nicotin yn gostwng.

Dros amser mae'r cylch hwn yn cryfhau llwybrau niwral sy'n cynnal caethiwed, gan wneud rhoi'r gorau iddi'n anodd er gwaethaf ymwybyddiaeth o niwed.




**Cylch Caethiwed:**

1. Defnydd → Mae nicotin yn mynd i mewn i'r llif gwaed.
2. Pleser/rhyddhad → Rhyddhau dopamin.
3. Dirywiad → Mae lefelau nicotin yn gostwng.
4. Chwant → Awydd i ddefnyddio eto.

[Chemical Addiction: Types, Causes, Symptoms, and Treatment]

# Crynodeb

Mae tybaco a nicotin yn gysylltiedig yn agos ond nid yn union yr un fath: tybaco yw'r cynnyrch planhigion, a nicotin yw'r cemegyn ynddo sy'n achosi caethiwed. Gellir cynhyrchu nicotin yn synthetig hefyd.

Er mai nicotin ei hun yn bennaf sy'n sbarduno caethiwed, mae cynhyrchion tybaco yn dod â defnyddwyr i gysylltiad â llawer o sylweddau niweidiol eraill sy'n cyfrannu at glefydau a marwolaethau.

Deall sut mae nicotin yn gweithio yn y corff yw'r cam cyntaf tuag at leihau niwed a chefnogi rhoi'r gorau iddi.



# Cyfeiriadau

Defnyddiodd yr wybodaeth a ddarparwyd yn y casgliad o sleidiau hwn y ffynonellau canlynol:


Tobacco: Its historical, cultural, oral, and periodontal health association – PMC
Nicotine Chemistry, Metabolism, Kinetics and Biomarkers - PMC
Nicotine Is Why Tobacco Products Are Addictive | FDA
Cognitive Effects of Nicotine: Recent Progress – PMC
Chemical Addiction: Types, Causes, Symptoms, and Treatment
Chapter 11: smoking and tobacco use - GOV.UK
Drug Misuse and Addiction | National Institute on Drug Abuse (NIDA)
Tobacco | NHS inform